

**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**  
**Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.**  
**Teleffon: Botwnnog 730357**

6ed Ionawr, 2021.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor drwy ddefnyddio 'zoom' (drwy garedigrwydd Y Cynghorydd Michael Strain) **Nos Lun nesaf, 11eg Ionawr, 2021** am 7.30 y.h. Bydd y Cynghorydd Strain yn anfon e-bost atoch cyn yr amser dechrau fel y gallwch ymuno yn y cyfarfod.

**RHAGLEN**

**1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**2. YMDDIHEURIADAU**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn ffurflenni.

**4. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 14eg RHAGFYR, 2020.**

Copi'n amgaeedig.

"A"

I drafod materion yn codi o'r cofnodion.

**5. CEISIADAU CYNLLUNIO**

I ystyried y cais a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor. Os bydd cais arall i law, rhoddir gwybodaeth i chwi ymlaen llaw er rhoi cyfle i chwi gael golwg ar y we. **Noder** – nid oes copiau ar bapur yn dod mwyach ond gellwch weld manylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'.

Cais C20/1037/32/DT – estyniadau ac addasiadau i Pentre, Botwnnog.

**6. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

**7. MATERION IECHYD**

A oes unrhyw fater angen ei anfon ymlaen i Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru?

**8. ADRODDIAD YR IS-BWYLLGOR ARIANNOL A GYNHALIWYD YN GYNHARARCH AR Y NOSON**

Er gwybodaeth ac er hwylsuo'r drafodaeth amgaeaf gopi o'r derbyniadau/taliadau i fyny i 5ed Ionawr, 2021, hefyd braslun o fantolen ariannol. "B"

9. **PRAESEPT 2021/22**

I ystyried llythyr Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd, er pennu'r praesept am 2021/22.

Copi'n amgaeedig.

"C"

10. **CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL**

I ystyried y ceisiadau a ganlyn:

Cerebral Palsy (Cymru (Canolfan Therapi Plant BOBATH gynt)

Eglwys Sant Beuno, Botwnnog

Ysgol Uwchradd Botwnnog (os i law)

"CH"

11. **AWDURDOD I DALU**

I awdurdodi'r taliad a ganlyn ac unrhyw daliad ddaw i law cyn dyddiad y Cyngor.

Llanw Llyn – hysbyseb £12.60

12. **ADRODDIAD Y BDO AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU  
3 Iain MAWRTH, 2020**

Adroddiad y BDO i law – copi'n amgaeedig.

"D"

13. **AWYR DYWYLL Y NOS YN LLŶN**

Gwybodaeth am gyfarfod arlein ar 27ain Ionawr, 2021, am 5.00 y.h.

Copi'n amgaeedig.

"DD"


14. **DIWRNOD GWEITHWYR Y GIG, GOFAL CYMDEITHASOL & RHENG  
FLAEN 5ED GORFFENNAF 2021**

E-bost dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru.

Copi'n amgaeedig.

"E"

Yn gywir,



Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR  
Y CYNGHORWYR**

David Brunelli (post)  
Gwenan Griffith (e-bost)  
Glyn Roberts (e-bost)  
Glenys Williams (post)

Carys H. Evans (e-bost)  
Dylan Parry Jones (post)  
Michael Strain (e-bost)  
Siôn Williams (e-bost)

Elin Hughes (e-bost)  
Ifor Owen (post)  
Carys E. Williams (post)